# Ffeil ffeithiau Deunyddiau bob dydd

# Deunyddiau bob dydd


## Beth yw dyfeisiwr?

Mae dyfeisiwr yn creu ac yn darganfod pethau newydd. Mae'n ceisio datrys problemau. Datrysodd Charles Macintosh y broblem fod deunyddiau'n gwlychu yn y glaw pan ddyfeisiodd ddeunyddiau sy'n dal dŵr. Mae dyfeiswyr yn gweithio mewn llawer o wahanol weithleoedd, gan gynnwys:

- labordai ymchwil
- eu cartrefi
- prifysgolion.

Y **Dysgu Allweddol** a'r **Sgiliau Gwyddoniaeth** sy'n angenrheidiol:

- Datrys problemau a nodwyd.
- Sefydlu ymchwiliadau a dod i gasgliadau i ddeall a yw'r ddyfais yn datrys y broblem.



*Dyma Charles Macintosh. Roedd yn ddyfeisiwr o'r Alban. Dyfeisiodd ffabrig sy'n dal dŵr, a chafodd côt law macintosh ei henw ar ei ôl.*


## Beth yw gwneuthurwr teganau?

Mae gwneuthurwr teganau'n dylunio ac yn gwneud teganau newydd. Mae'n dewis deunyddiau'n ofalus i wneud teganau sy'n gweithio. Er enghraifft, mae angen deunydd sy'n ymestyn ar gyfer pêl fownsio ac mae'n rhaid i flociau adeiladu fod yn gryf. Mae'n bosib iddyn nhw weithio mewn:

- siopau
- eu cartrefi
- dylunio gemau.

Y **Dysgu Allweddol** a'r **Sgiliau Gwyddoniaeth** sy'n angenrheidiol:

- Bod yn greadigol wrth ddylunio, gwneud a gwerthuso teganau newydd.
- Ymchwilio gan ddefnyddio ffynonellau eilaidd i ddarganfod sut mae gwneud tegan newydd.



*Dyma Arvind Gupta. Mae'n ddyfeisiwr teganau o India ac yn arbenigwr mewn gwyddoniaeth.*

## Beth yw peiriannydd strwythurol?

Mae peiriannydd strwythurol yn dylunio strwythurau fel adeiladau a phontydd. Mae'n defnyddio deunyddiau i wneud yn siŵr bod y strwythurau'n gryf ac yn gadarn fel nad ydyn nhw'n disgyn i lawr neu'n malu. Mae'n gweithio mewn gwahanol leoedd gyda gwahanol bobl, gan gynnwys:

- penseiri
- adeiladwyr
- peirianwyr eraill.

Y **Dysgu Allweddol** a'r **Sgiliau Gwyddoniaeth** sy'n angenrheidiol:

- Gweithio mewn tîm gyda llawer o bobl eraill i greu strwythurau cryf.
- Dod i gasgliadau a chyfathrebu canfyddiadau wrth weithio â phobl eraill.



*Dyma Sophie. Mae hi'n beiriannydd strwythurol yng Nghaerdydd, Cymru.*

*Fyddech chi'n hoffi defnyddio'r hyn rydych chi'n ei ddysgu am ddeunyddiau bob dydd pan fyddwch chi'n hŷn?*

ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY